



CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Gwener, 18 Rhagfyr 2020 am 1pm .

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet – oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M. Webber Y Cyngorydd R. Bevan
Y Cyngorydd A. Crimmings Y Cyngorydd M. Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R. Lewis
Y Cyngorydd C. Leyshon Y Cyngorydd G. Hopkins

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadrn – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor
Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Rheng Flaen

Eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd M. Adams
Y Cyngorydd J. Brencher
Y Cyngorydd H. Fychan
Y Cyngorydd E. Griffiths
Y Cyngorydd M. Weaver

39 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

40 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020 yn rhai cywir.

41 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu raglen waith ddrafft ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-21 i'r aelodau, a oedd yn rhestru'r materion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried.

Siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y sefyllfa bresennol, gan nodi bod

angen am fwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r rhaglen.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bod modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod defnyddio'r rhaglen yn helpu i gadw'r broses gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi rhagor o gyfleoedd o ran camau Cyn-graffu.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021 (gan addasu'n briodol ar ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

42

GWAITH DEUOLI A4119 HEOL CWM ELÁI - PARC BUSNES LLANTRISANT HYD AT GYLCHFAN COED ELÁI

Darparodd y Cyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen adroddiad i'r Cabinet sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ddatblygu a chynnal y cynllun trafndiaeth sylweddol: Gwaith Deuoli A4119 Heol Cwm Elái – Parc Busnes Llantrisant hyd at Gylchfan Coed-elái.

Clywodd yr Aelodau fod y gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer y prosiect bellach wedi'i gwblhau, ac mae cynlluniau manwl wrthi'n cael eu llunio. Mae disgwyl i'r gwaith yma ddod i ben yn ystod tymor y gwanwyn, 2021. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, fod y gylchfan sy'n gwasanaethu Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru wedi'i chadw gan fod y gwaith a fyddai'n ofynnol ar gyfer creu mynedfa newydd yn gofyn am waith peirianeg helaeth, a fyddai wedi arwain at gost ychwanegol o £2 miliwn.

Cafodd manylion y dull partneriaeth cytunedig gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu pont droed/beiciau sy'n cydymffurfio â Theithio Llesol, yn hytrach na thanffordd ar gylchfan Coed-elái, eu trafod hefyd. Clywodd yr Aelodau y byddai'r bont yn gwasanaethu'r safle datblygu yn ogystal â darparu llwybr Teithio Llesol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fynd i'r afael â'r costau ychwanegol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yr adroddiad a gwnaeth sylwadau am y buddion niferus y byddai pobl o'r Fwrdeistref Sirol yn eu profi o ganlyniad i'r prosiect, gan groesawu'r ychwanegiadau a amlinellwyd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau am y buddion i Gwm Rhondda a gofynnodd a fyddai'r gylchfan wrth gefn Pencadlys y Gwasanaeth Tân yn cysylltu â'r ffordd ddeuol, gan gyfeirio at y sefyllfa gyfredol o ran tagfeydd yn yr ardal. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r bwriad oedd cael cynllun ffordd ddeuol er mwyn atal unrhyw dagfeydd yn y dyfodol.

Siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am y prosiect, gan gyfeirio eto at y buddion y byddai'r prosiect yn eu creu i lawer o drigolion a chymudwyr i mewn ac allan o'r Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd y byddai'r prosiect yn cael ei ategu gan waith pellach gyda safle datblygu Coed-elái yn y dyfodol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

- (i) Nodi'r cynnydd a wnaed a chymeradwyo'r camau nesaf y rhaglen ar gyfer y prosiect.
- (ii) Rhoi awdurdodiad dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen i gyflwyno cais cynllunio ar ran y Cyngor ar gyfer codi pont Teithio Llesol arfaethedig ar gylchfan Coed-elái.

43 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU RHEOLIADAU DRAFFT I SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CJCS)

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr Aelodau at yr adroddiad ar y cyd ger eu bron gan nodi bod darpariaethau wedi'u cynnwys, drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), i greu cyfrwng ar gyfer galluogi prif gynghorau i gyfathrebu ar lefel rhanbarthol yn gyson, a hynny gan ddefnyddio Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol (CJCS). Clywodd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw cydweithredu yn fater newydd i lywodraeth leol, gyda phrif gynghorau'n cydweithredu'n effeithiol mewn ystod o feysydd ers peth amser. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y rôl sylweddol yr oedd Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi'i chwarae wrth sefydlu cydweithrediadau ar draws Cwm Taf Morgannwg a rhanbarth ehangach De Cymru.

Clywodd yr Aelodau mai nod y Cyd-bwyllgorau yma oedd sicrhau bod trefniadau rhanbarthol cyson, cydnerth ac atebol ar waith er mwyn cyflawni tair swyddogaeth bwysig: (i) cynllunio defnydd tir strategol (ii) cynllunio trafniadaeth strategol a (iii) datblygu economaidd. Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol trwy reoliadau, yn darparu rhagor o gydlyniant a llai o gymhlethdod yn yr ymagwedd at drefniadau llywodraethu rhanbarthol wrth arfer y tair swyddogaeth a ynnigwyd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg byr i'r Aelodau o swyddogaethau allweddol Cyd-bwyllgor Corfforaethol gan gynnwys aelodaeth, sefydlu, hawliau pleidleisio, Aelodau cyfetholedig, materion staffio ac adnoddau, a chraffu. Clywodd yr Aelodau y byddai cyllid cychwynnol yn cael ei ddarparu ac y byddai angen cynnal cyfarfod agoriadol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol erbyn Medi 2021.

Cyn cloi, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Rheoliadau Drafft sy'n llunio Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn destun Ymgynghoriad ar hyn o bryd, a dywedodd fod Aelodau'r Pwyllgor wedi trafod y rheoliadau drafft yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 9 Rhagfyr 2020, ac y byddai adborth o'r cyfarfod hwnnw'n rhan o'r ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad.

Ar yr adeg hon y cyfarfod galwodd yr Arweinydd ar Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Adams, fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a aeth ymlaen i roi trosolwg i'r Cabinet o sylwadau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r rheoliadau drafft.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Pwyllgor Craffu am ei adborth ac adleisio rhai o'r pryderon a godwyd. Nododd y Dirprwy Arweinydd y byddai angen disgrisiwn sylweddol o fewn Awdurdodau Lleol rhanbarthol wrth drafod trefniadau llywodraethu ac ymarferoldeb yn rhan o Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Cyfeiriodd yr Aelod eto at bryderon mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig a'r goblygiadau y byddai hyn yn eu cael ar ddemocratiaeth; yr amserlenni uchelgeisiol a nodwyd gyda dyddiad cychwyn Medi 2021 a'r diffyg trefniadau craffu a amlinellwyd yn y rheoliadau drafft. Ychwanegodd fod hyn yn hanfodol ar gyfer unrhyw atebolrwydd.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn hapus mewn egwyddor â'r cysyniad o Gyd-bwyllgorau Corfforaethol a siaradodd am rai pryderon posibl gyda mandadu swyddogaethau a arferir gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Er mwyn i CJC's fod yn llwyddiannus, dywedodd fod angen iddyn nhw gael eu llywio gan Lywodraeth Leol.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai fod angen i Aelodau Etholedig lywio'r agenda mewn perthynas â Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chododd bryderon hefyd mewn perthynas â'r aelodau etholedig ac anetholedig arfaethedig. Roedd yr Aelod Cabinet yn deall y buddion y byddai'r aelodau cyfetholedig yma'n eu cynnig o ran arbenigedd ond roedd yn teimlo y byddai hyn yn cael ei wasanaethu'n well ar is-bwyllgor y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, yn hytrach na lleihau atebolrwydd democrataidd ar y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ei hun.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau cadarnhaol ar rannu arferion gorau a'r cyfle pellach i leihau dyblygu gan ychwanegu bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn darparu cwmipas pellach o ran arbedion ariannol i Awdurdodau. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet y gefnogaeth ariannol i'w darparu mewn perthynas â chostau cychwynnol, a fyddai'n dileu'r baich i Awdurdodau Lleol.

Holodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg sut y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cysylltu â threfniadau gweithio ar y cyd sefydledig eraill gan gyfeirio at y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai trefniadau o'r fath yn parhau fel y maen nhw, er bod modd i'r rhain gael eu cynnwys yn nhrefniadau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol. Dywedodd yr Arweinydd mai barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â hyn oedd bod y maes addysg lleol eisoes yn cyflawni trwy ei drefniadau ei hun, ac felly na ddylid ei gyffwrdd ac y dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fwrw ymlaen â meysydd llai yn gyntaf.

Gorffennodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Chynhwysiant y trafodaethau drwy dalu teyrnged i safon uchel y gwaith syn deillio o'r trefniadau cydweithredol presennol, a nododd bwysigrwydd Awdurdodau Lleol o ran llunio'r anghenion ar gyfer cyflawni er mwyn sicrhau'r

canlyniadau gorau posibl.

Ar ôl trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD:**

- I. I nodi [dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru \(LIC\)](#), ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad, sy'n ymwneud â rheoliadau drafft a fyddai'n sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru, ac yna'n arfer y swyddogaethau canlynol ledled y rhanbarth; (1) lles economaidd, (2) cynllunio datblygiad strategol, a (3) datblygu polisïau trafnidiaeth;
- II. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i gwblhau'r ymateb ysgrifenedig terfynol i ymgynghoriad LIC yn seiliedig ar adborth yr Aelodau yn y cyfarfod a'r adborth a gafwyd o Gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2020 - a chyflwyno'r ymateb hwnnw i LIC cyn i'r ymgynghoriad gau.

44 ADOLYGIAD O YMATEB Y CYNGOR I STORM DENNIS

Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg manwl i'r Aelodau o ymateb y Cyngor i Storm Dennis, un o blith pedair storm fawr i daro Cymru ar ddechrau 2020, a arweiniodd at lifogydd mewn 1,070 o aelwydydd yn RhCT. Nododd y Prif Weithredwr gyfres o argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet sy'n gwella ymateb tymor byr a thymor hir y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â chyfyngu ar effaith llifogydd ar y cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl.

Gwnaeth y Prif Weithredwr sylwadau am ddigwyddiad tywydd eithafol Storm Dennis, a ddigwyddodd ar ôl cyfres o ddigwyddiadau eraill. Cyfeiriodd hefyd at dopograffeg y Fwrdeistref Sirol, a oedd hefyd yn ffactor a wnaeth gyfrannu i'r digwyddiadau a ddatblygodd a'r effaith ddinistriol a gafodd y storm ar gymunedau lleol ledled y Fwrdeistref Sirol. Soniodd y Prif Weithredwr am aelwydydd a busnesau a fu dan ddŵr, y tirlithriad sylweddol yn ardal Tylorstown a'r difrod a achoswyd i asedau seilwaith priffyrdd, systemau draenio, ac adeiladau'r Cyngor, fel Lido Cenedlaethol Cymru.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor i baratoi ar gyfer y Storm, y gwaith a wnaed yn ystod y storm, a'r hyn a wnaed ar ôl hynny.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am ei adroddiad manwl a diolchodd hefyd i'r Aelodau am eu cyflwyniadau, sydd ynghlwm yn Atodiad 3 yr adroddiad, gan nodi bod dau gyflwyniad hwyr hefyd wedi'u derbyn ers cyhoeddi'r adroddiad. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Cabinet er gwybodaeth. Diolchodd yr Arweinydd hefyd am y gwaith a'r sylwadau a ddarparwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hyd yma, a'r themâu penodol sy'n dod i'r amlwg.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am yr argymhellion yn yr adroddiad a fyddai'n gofyn am gyllid sylweddol, a siaradodd hefyd am gost yr iawndal hyd yn hyn sy'n fwy na £80 miliwn. Clywodd yr Aelodau am lefel y buddsoddiad a nifer y prosiectau a gyflwynwyd eisoes gan y Cyngor, yr ymarferion mapio sydd eisoes ar y gweill a'r angen i gynnal arolygon unigol i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn gywir a bod seilwaith, fel cylfatiau, yn dal i fod yn addas at y diben.

Soniodd yr Arweinydd am drafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r mesurau ataliol y mae angen eu cryfhau, gan roi sylw i 'ystafell reoli argyfwng' a fyddai'n monitro dyfeisiau llifogydd ac yn cynnwys llinell ffôn annibynnol, a'r wybodaeth ychwanegol y byddai hyn yn ei darparu pe bai'r fath sefyllfa'n codi eto. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am yr angen i wneud eiddo yn fwy gwydn ac ychwanegodd fod cadernid y systemau sydd ar waith gan y Cyngor wedi gwella ymhellach yn dilyn y digwyddiad. Diolchodd i'r holl staff a'r cymunedau a oedd wedi cyfrannu at yr ymdrechion, cyn, yn ystod ac ar ôl Storm Dennis. Gorffennodd yr Arweinydd ei sylwadau trwy ofyn am gyflwyno adroddiad pellach ar sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â Storm Dennis i'r Cabinet neu'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am yr ymateb eithriadol a welwyd cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad a dywedodd, oherwydd y cynllun lliniaru llifogydd rhagorol sydd eisoes ar waith yn ei ward, bod yr effaith ar breswylwyr yn cael ei lleihau. Serch hynny, ychwanegodd nad oes modd lliniaru llifogydd yn llwyr, a bod nifer fach o drigolion yn dal i ddioddef llifogydd yn eu heiddo. Gwnaeth sylwadau pellach ar wytnwch y gymuned a chydweithio gan nodi pwysigrwydd 'lleisiau'r cymunedau', sy'n sicrhau cysylltiadau cyfathrebu da rhwng trigolion y Fwrdeistref Sirol a'r Aelodau Etholedig. O ran Aelodau Etholedig, cyfeiriwyd at bwysigrwydd porth yr Aelodau unwaith iddo gael ei ddatblygu'n llawn, a'r cyfle i gynnwys hyn yn hyfforddiant sefydlu'r Aelodau yn dilyn etholiadau 2022. Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am y gwaith craffu amhrisiadwy a oedd wedi bwydo'r adroddiad gerbron y Cabinet, a phwysigrwydd gwaith parhaus y Pwyllgor Craffu yn y maes hwn. I gloi, ychwanegodd, er na allai'r Cyngor fyth gael gwared ar lifogydd na rheoli natur yn llwyr, byddai'r Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i leihau'r risg.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad ger eu bron, gan ychwanegu y byddai'r adroddiad, ynghyd â gwaith agos gyda CNC a chanlyniadau adroddiad S19 yn rhoi digon o wybodaeth i'r Cyngor weithredu arno. Aeth ymlaen i wneud sylwadau am yr angen i liniaru yn erbyn unrhyw broblemau a allai ddeillio o newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Siaradodd yr Aelod yn gadarnhaol am y buddsoddiadau a'r prosiectau sydd eisoes yn cael eu cyflawni gan y Cyngor a'r gwaith o lobïo Llywodraeth San Steffan am gyllid pellach ar gyfer cynlluniau atal llifogydd.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai sylwadau am y tirlithriad a ddigwyddodd yn ardal Tylorstown, mewn ardal a ddefnyddir yn helaeth gan y cyhoedd. Diolchodd yr Aelod i'r swyddogion am y camau ymatebol a gymerwyd a'r gwaith parhaus i sicrhau bod yr ardal yn ddiogel. Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet sylwadau am y gwaith monitro rheolaidd a wneir o ran y tomenni glo presennol, gan nodi pa mor bwysig yw hi i'r Cyngor sicrhau cyllid gan San Steffan i gael gwared ar domenni glo a lleddfu pryderon pobl am unrhyw drychinebau yn y dyfodol.

Talodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth deyrnged i'r staff a weithiodd yn ddi-baid yn ystod storm Dennis a'r gwytnwch cymunedol a welwyd, gyda phawb yn rhoi cymorth. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am bwysigrwydd llinellau cyfathrebu agored a'r cyfeiriad yn yr adroddiad at yr ystafell reoli argyfwng a fyddai, yn ei barn hi, yn gwella cyfathrebu. Byddai defnyddio'r timau cyfathrebu i ddarparu gwybodaeth amser real, yn ei barn hi, yn amhrisiadwy.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Oedolion a'r

Gymraeg am bwysigrwydd rhoi systemau cadarn ar waith i rybuddio'r cyhoedd, a gwnaeth sylwadau am y diffyg a nodwyd yn yr adroddiad. Amlygodd yr Aelod o'r Cabinet pa mor bwysig yw hi fod pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd, i ddarparu rhybuddion digonol lle mae dŵr yn codi'n gyflym. Rhoddodd yr Arweinydd fanylion i'r Aelodau am fonitro'r ystafell reoli newydd, y systemau larwm sydd ar waith ar gyfer nodi cylfatiau sydd wedi'u blocio a'r gweithrediadau cctv a fydd yn monitro afonydd mewn ardaloedd allweddol. Pe bai system rhybuddio CNC yn methu, gallai'r Cyngor ddefnyddio'r darpariaethau sydd ganddo ar waith i godi ymwybyddiaeth.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant sylwadau am y trafodaethau parhaus rhwng y Cyngor a CNC i geisio atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto, a soniodd am yr angen i asiantaethau eraill fod yn rhan o drafodaethau o'r fath, gan roi sylwadau am y llifogydd yn ei ward ei hun a'r rôl a chwaraewyd gan sefydliadau Dŵr Cymru, Network Rail a Trafnidiaeth Cymru. Talodd yr Aelod o'r Cabinet deyrnged i'r gwirfoddolwyr a fu'n helpu yng Nghanolfan Gymunedol Trehafod, gan sicrhau diogelwch y pentref.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol i'r staff a'r cymunedau lleol am ddod at ei gilydd yn ystod y cyfnod anodd yma, ac ysgogi ysbryd cymunedol cryfach yn ystod cyfnod gofidus. Croesawodd yr Aelod yr adroddiad a'r atebion a ddarparwyd, a siaradodd am bwysigrwydd edrych nid yn unig ar seilwaith amddiffyn rhag llifogydd ond hefyd ar newid yn yr hinsawdd, yn rhan o'r strategaeth llifogydd ar gyfer y dyfodol, gan roi sylwadau ar wahanu dŵr, plannu coed, adolygiadau dalgylch dŵr a chorsydd mawn.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant sylwadau am natur ddigynsail y digwyddiadau tywydd ar ddechrau'r flwyddyn a chroesawodd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad, a oedd yn cyd-fynd â'r sylwadau a ddarparwyd gan y Pwyllgorau Craffu, gan ychwanegu ei bod yn teimlo bod hyn yn adlewyrchiad cytbwys o ymateb y Cyngor i'r storm.

Ar yr adeg yma yn y cyfarfod, galwodd yr Arweinydd ar y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Adams yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a rhoddodd e drosolwg i'r Cabinet o'r gwaith craffu.

Gyda chaniatâd yr Arweinydd, anerchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher y Cabinet hefyd.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i holi a fyddai unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu gan CNC ar gyfer y mesurau llifogydd angenrheidiol, gan wneud sylwadau penodol am y llifogydd a ddigwyddodd yn Nhrefforest. Dywedodd yr Arweinydd fod llawer o sgysiau yn dal i ddigwydd gyda CNC a siaradodd am y llinellau cyfrifoldeb rhwng y Cyngor a CNC.

Crynhodd yr Arweinydd drafodaethau'r Cabinet, gan nodi y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r argymhellion arfaethedig yn cael eu cynnwys yn strategaeth y gyllideb. Siaradodd am bwysigrwydd cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet neu'r Cyngor yn y Flwyddyn Newydd ar ôl cytuno ar y rhaglen gyfalaf. I gloi, gwnaeth sylwadau pellach am rôl craffu a'r gwaith pellach y gallai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ei wneud mewn perthynas â chraffu ar weithrediad yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad.

Ar ôl trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD:**

- I. Nodi'r camau a gymerwyd gan y Cyngor mewn perthynas â Storm Dennis:
 - a) Cyn y Storm;
 - b) Yn ystod y Storm;
 - c) Yn syth ar ôl y Storm;
 - d) Yn ystod y dyddiau a'r wythnosau yn dilyn y Storm;
 - e) Yr ymateb tymor hwy o ran atgyweirio ac ailosod seilwaith a oedd wedi'i ddifrodi ac atal llifogydd yn y dyfodol.
- II. Nodi'r adborth o'r gwaith hyd yma gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'i adolygiad o ddigwyddiadau Storm Dennis a'r ymateb amlasiantaethol fel y nodir yn Atodiad C yr adroddiad hwn.
- III. Nodi a chymeradwyo'r argymhellion ar gyfer gwella a nodir yn [Adran 11](#) o'r adroddiad hwn.
- IV. Mae'r cynnydd hwnnw yn erbyn yr argymhellion ar gyfer gwella wedi'i gynnwys yn yr Adroddiadau Rheoli Cyllid a Chyflawniad, a gyflwynir i'r Cabinet bob chwarter, ac i'r Pwyllgor Craffu perthnasol.
- V. Bod adroddiad pellach sy'n nodi canfyddiadau Adroddiadau Ymchwilio Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y Flwyddyn Newydd, a bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn craffu ar yr adroddiad adran 19 ar ôl ei gyhoeddi, yn ogystal â chraffu ar y gwaith parhaus y mae'r Cyngor yn ei wneud mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.19pm

**Y Cyngorydd A Morgan
Cadeirydd**